CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

DYDD Iau, 8 Hydref 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
M Jacob, Traffic and Road Safety Manager;
R. S. Waters, Rheolwr Priffyrdd a Chludiant;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.10 yb

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 22AIN IONAWR 2020

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau cyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2020 gan ei fod yn gofnod cywir.

3. LLE PARCIO I'R ANABL, HEOL YR ORSAF, PORTH TYWYN

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynnig y Cyngor i greu lle parcio i'r anabl yn Heol yr Orsaf, Porth Tywyn yn lle'r lle parcio amser cyfyngedig presennol fel y manylir yn y cynllun sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, a nododd fod gwrthwynebiad wedi dod i law gan fusnes cyfagos yn dilyn ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ynghylch y cynigion.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y gwrthwynebiad a ddaeth i law, ymatebion y swyddogion i hwnnw, ynghyd â'r opsiynau eraill a'u manteision a'u hanfanteision.

PENDERFYNWYD nodi'r gwrthwynebiad oedd wedi dod i law i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig ar gyfer Lle Parcio i'r Anabl yn Heol yr Orsaf, Porth Tywyn, ond bod y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau, fel y manylwyd yn yr adroddiad a bod y gwrthwynebydd yn cael gwybod am hynny.

4. BWRIAD I GYFLWYNO TERFYN CYFLYMDER 20MYA - STRYDOEDD AMRYWIOL, CAERFYRDDIN

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynnig y Cyngor i gyflwyno Terfyn Cyflymder o 20 mya ar hyd amrywiol strydoedd preswyl yng Nghaerfyrddin, fel y manylir yn y cynllun sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, a nododd fod gwrthwynebiad wedi dod i law mewn perthynas ag arwyddion yn dilyn ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ynghylch y cynnig.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y gwrthwynebiad a ddaeth i law ac ymatebion y swyddogion i hwnnw.

PENDERFYNWYD nodi'r gwrthwynebiad oedd wedi dod i law i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig ar gyfer Terfyn Cyflymder o 20 mya ar hyd

amrywiol strydoedd yng Nghaerfyrddin ond bod y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau, fel y manylwyd yn yr adroddiad a bod y gwrthwynebydd yn cael gwybod am hynny.

_____ _____

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL **DYDDIAD**